Llywodraeth Cymru
Welsh Government

## Ymyriad wedi'i Dargedu – Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr

Ar ôl i'r Mesurau Arbennig gael eu codi, mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr bellach yn destun Ymyriad wedi'i Dargedu. Mae'r ddogfen hon yn nodi'r meysydd allweddol ar gyfer Ymyriad wedi'i Dargedu a'r disgwyliadau o ran gwella wrth symud ymlaen.

Mae angen gwella nifer o feysydd allweddol, yn enwedig y rhai mewn perthynas â'r canlynol:

- gwasanaethau iechyd meddwl;
- y gallu i baratoi cynllun tymor canolig cymeradwy;
- datblygu strategaeth glinigol sylfaenol a'i rhoi ar waith;
- sefydlu uwch-dîm arwain a rheoli sefydlog a gwydn ar draws y gwahanol safleoedd ag arweinyddiaeth glinigol gryf sy'n dibynnu llai ar swyddi interim.

Mae hyn yn gydnaws â'r argymhellion a ddeilliodd o waith Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru ac Archwilio Cymru yn ystod y 12 mis diwethaf.

Bydd y dull gweithredu mewn perthynas â'r Ymyriad wedi'i Dargedu yn seiliedig ar ddull matrics aeddfedrwydd, er mwyn olrhain gwelliant a dangos tystiolaeth o'r gwelliant hwnnw.

Mae'r Ymyriad wedi'i Dargedu yn cynnwys pecyn buddsoddi ariannol a gyhoeddwyd ar 27 Hydref 2020 gwerth cyfanswm o £297m hyd at ddiwedd 2023/24, wedi'i ategu gan agweddau cymorth penodol fel y'u nodwyd yn dilyn yr asesiad sylfaenol.

Cytunir ar fframwaith i ategu'r Ymyriad wedi'i Dargedu sy'n ymdrin â'r buddsoddiad ariannol er mwyn dangos sut y caiff ei ddefnyddio i helpu gwasanaethau iechyd meddwl, gofal a gynlluniwyd a gofal heb ei drefnu i drawsnewid ac arloesi.

### 1.0 Y Ffocws ar gyfer Ymyriad wedi'i Dargedu

Mae'r Bwrdd Iechyd yn destun Ymyriad wedi'i Dargedu yn y pedwar maes canlynol:

- Iechyd Meddwl (oedolion a phlant)
- Strategaeth, cynllunio a pherfformiad
- Arweinyddiaeth (gan gynnwys llywodraethu, trawsnewid a diwylliant)
- Ymgysylltu (cleifion, y cyhoedd, staff a phartneriaid)

### 2.0 Fframwaith yr Ymyriad wedi'i Dargedu

Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (PBC) wedi bod yn destun Mesurau Arbennig ers pum mlynedd bellach ac yn ystod y cyfnod hwn, aeth ati i ddatblygu ymatebion a datrysiadau i'r heriau strwythurol niferus yr oedd yn eu hwynebu. Wrth i'r Bwrdd Iechyd symud i ymyriad wedi'i dargedu, mae camau trawsnewid ac arloesi

yn hanfodol ac mae angen iddynt fod yn seiliedig ar lwyddiant y pum mlynedd diwethaf. Mae camau trawsnewid cymhleth yn gofyn am newidiadau sefydliadol a diwylliannol sylweddol; yr angen i weithredu mewn ffyrdd newydd a dod o hyd i ddatrysiadau gweithredol, clinigol, digidol a thechnolegol newydd. Mae angen datblygu'r rhain mewn partneriaeth â defnyddwyr gwasanaethau, staff a rhanddeiliaid.

Mae'r cyfnod o amser a dreuliwyd yn destun Mesurau Arbennig wedi helpu'r bwrdd iechyd i ganolbwyntio ar yr agweddau craidd ar arweinyddiaeth a llywodraethu, gan osod y sylfeini ar gyfer gwaith pellach. Ymyriad wedi'i Dargedu yw'r broses y mae angen iddo wneud newidiadau a gwelliannau cynaliadwy o'i mewn.

Bydd Fframwaith yr Ymyriad wedi'i Dargedu yn seiliedig ar fatrics aeddfedrwydd ar gyfer pob un o'r pedwar maes a restrir uchod.

Profwyd bod defnyddio matrics aeddfedrwydd yn ffordd effeithiol o gefnogi newidiadau arloesol a thrawsnewidiol, gan alluogi sefydliad i ganolbwyntio ar wella. Mae'r matrics aeddfedrwydd yn golygu y gellir tynnu sylw at themâu cyffredin ar hyd taith drawsnewid ac yn nodi'n gryno yr elfennau hanfodol ar gyfer llwyddiant, yn rhoi sicrwydd bod y ffocws ar y blaenoriaethau priodol ac yn amlygu'r meysydd y mae angen mwy o sylw arnynt.

Bydd modelau gofal iechyd yn y dyfodol yn golygu y bydd angen defnyddio sawl ffordd wahanol o weithio er budd poblogaethau lleol a byddant yn codi llawer o faterion anodd y bydd angen ymdrin â nhw. Er mwyn dod o hyd i'r dull gweithredu priodol sy'n diwallu anghenion poblogaethau lleol, mae angen ymgysylltu o ddifrif â holl bartneriaid y system, sicrhau bod amser i gydweithio er mwyn cytuno ar weledigaeth ar gyfer y system a phennu'r llwybr ar gyfer cyrraedd y nod. Gall y matrics aeddfedrwydd hwyluso rhai o'r trafodaethau hyn ar ffurf a swyddogaethau'r system, trefniadau ar gyfer llywodraethu a gwneud penderfyniadau mewnol, ffyrdd newydd ac arloesol o weithio a chyllid.

Mae matricsau aeddfedrwydd yn darparu gwiriad iechyd system ar unrhyw bwynt unigol a gellir eu hailadrodd ar gyfnodau penodedig er mwyn asesu cynnydd. Maent yn helpu sefydliad i hunanfyfyrio, gan gynnwys y sefydliad cyfan a sicrhau ymrwymiad cydgysylltiedig i'r camau nesaf sydd eu hangen. Maent yn helpu i ddarparu iaith gyson a chyffredin ac i ddangos nodweddion llwyddiant ar ffurf map ffordd syml sy'n anelu at aeddfedrwydd ac sy'n seiliedig ar dystiolaeth.

Bydd y pedwar matrics a gaiff eu datblygu o fewn yr Ymyriad wedi'i Dargedu gan PBC yn amlinellu'r elfennau allweddol sy'n sail i ddatblygiad llwyddiannus y sefydliad ar gyfer yr holl feysydd gwella. Maent yn nodi model cynnydd sy'n datblygu o'r camau cychwynnol a chamau gweithredu er mwyn rheoli a chefnogi'r gwelliannau sydd eu hangen.

Nid rhestr wirio syml yw'r matricsau aeddfedrwydd. Fe'u cynlluniwyd er mwyn helpu arweinwyr byrddau iechyd i gydweithio ag eraill i ddeall y datblygiad sydd ei angen.

Mae'r matricsau aeddfedrwydd yn cynnwys chwe lefel. Mae'r rhain yn dangos y daith ddatblygu dros amser o'r lefel sylfaenol hyd at sefydliad sy'n batrwm i eraill. Mae'r meini prawf ar gyfer y chwe lefel fel a ganlyn:

| Lefel | | Meini prawf |
|---|---|---|
| 0<br>Dim Cynnydd | | Ni dderbynnir yr egwyddor neu os caiff ei derbyn, nid oes unrhyw gynlluniau i ddatblygu cynlluniau. |
| 1<br>Lefel Sylfaenol | Derbynnir yr egwyddor a cheir ymrwymiad i weithredu. | Mae'r Bwrdd Iechyd yn ymwybodol o'r gofyniad ond ni all ddangos ei fod yn ei fodloni a/neu ni all ddangos tystiolaeth bod cynlluniau neu ddulliau gweithredu clir ar waith i fodloni'r meini prawf |
| 2<br>Cynnydd Cynnar | Mae Cynnydd Cynnar yn cael ei ddatblygu | Mae'r Bwrdd Iechyd yn cydnabod beth sydd ei angen i fodloni'r meini prawf. Gall y Bwrdd Iechyd ddangos tystiolaeth ei fod yn gallu bodloni *rhai* o'r meini prawf ond ni all ddangos tystiolaeth ei fod yn gallu bodloni pob agwedd yn llawn. Mae'r Bwrdd Iechyd yn bwriadu bodloni'r holl feini prawf yn llawn |
| 3<br>Canlyniadau | Gwireddwyd cyflawniadau cychwynnol | Mae'r Bwrdd Iechyd yn bodloni'r rhan fwyaf o'r meini prawf, yn unol â'r cerrig milltir y cytunodd arnynt, mae ganddo gynlluniau clir a chredadwy i wella'r gwasanaethau a ddarperir yn barhaus ac mewn ffordd gynaliadwy. |
| 4<br>Aeddfedrwydd | Caiff canlyniadau eu cyflawni'n gyson | Mae'r Bwrdd Iechyd yn bodloni'r holl feini prawf hyd at safon uchel, gall ddangos tystiolaeth o sawl enghraifft o arferion da yn erbyn y meini prawf a gaiff eu rhannu a'u mabwysiadu fel mater o drefn gan eraill |
| 5 Yn dangos esiampl | Mae eraill yn dysgu o'n cyflawniadau cyson | Mae'r Bwrdd Iechyd yn rhagori mewn perthynas â'r holl feini prawf. Mae'r gwasanaethau a ddarperir a phrofiad cleifion yn ardderchog. Mae'r Bwrdd Iechyd yn arwain yr agenda strategol drwy roi arferion arloesol ar waith a gaiff eu rhannu gyda Byrddau Iechyd eraill a thu hwnt i'r sefydliad ag eraill, gan alluogi proses o wireddu cynaliadwyedd hirdymor |

Bydd angen i'r Bwrdd Iechyd ddatblygu rhaglen gadarn ac effeithiol er mwyn rhoi'r dull gweithredu hwn ar waith ym mhob rhan o'r sefydliad.

Argymhellir y dylid penodi Cyfarwyddwr Gweithredol fel Uwch-swyddog Cyfrifol (SRO) cyffredinol ar gyfer yr Ymyriad wedi'i Dargedu, y dylid penodi Cyfarwyddwyr Gweithredol i arwain pob un o feysydd yr Ymyriad wedi'i Dargedu ac y dylid enwebu IM i gefnogi'r SRO ar gyfer pob un o feysydd yr Ymyriad wedi'i Dargedu. Eu rôl yw datblygu'r matrics ar gyfer eu maes, cytuno arno a'i roi ar waith a sicrhau bod system ar waith ar gyfer cofnodi a nodi'r dystiolaeth.

## 3.0 Hunanasesu

Mae'r hunanasesiad yn agwedd hollbwysig ar y model aeddfedrwydd, mae angen i'r broses fod yn hunanfyfyriol, gan ystyried cynnydd a'r meysydd lle mae angen mwy o waith a chan ystyried gwahanol farnau a safbwyntiau.
Dylid integreiddio'r egwyddorion canlynol ar gyfer hunanasesu i'r asesiad:

- Dylid bod yn ymwybodol o'r angen i fod mor wrthrychol â phosibl wrth hunanasesu, gan driongli ffynonellau tystiolaeth
- Dylid osgoi'r risg o nodi sgoriau sy'n rhy uchel neu'n rhy isel
- Dylid bod yn onest ac yn feirniadol
- Dylid dangos balchder
- Dylid anelu at dwf parhaus
- Dylid darparu tystiolaeth ac olrhain cyflawniadau

Bydd angen cytuno ar y broses hunanasesu yn lleol ond yn ddelfrydol, dylai gynnwys y camau canlynol:

- Cynnal hunanasesiadau lleol.
- Sgôr hunanasesu ddwywaith y mis gan yr SRO perthnasol, ar y cyd â'r IM Perthnasol, gan ystyried adborth lleol.
- Sgôr hunanasesu wedi'i chyflwyno/cytuno arni gan grŵp llywio'r Ymyriad wedi'i Dargedu.
- Proses o sicrhau ansawdd sgoriau hunanasesu a thystiolaeth a'u herio mewn ffordd adeiladol ar lefel Gweithrediaeth PBC Cytuno ar sgoriau hunanasesu terfynol i'w cyflwyno i'r Bwrdd.
- Cyflwyno sgoriau hunanasesu i'r Bwrdd – eu cymeradwyo a'u meddiannu gan y Bwrdd.
- Cyflwyno sgoriau hunanasesu a thystiolaeth i Lywodraeth Cymru i'w trafod yng Nghyfarfod Trafod Ymyriad wedi'i Dargedu Llywodraeth Cymru.

## 4.0 Gweithredu

- Y Bwrdd Iechyd i ddatblygu manylion pob matrics aeddfedrwydd ar y cyd â staff, y Bwrdd, rhanddeiliaid, partneriaid a'r cyhoedd – Ebrill 2021
- Fframwaith cytûn ar gyfer y buddsoddiad ariannol ychwanegol – diwedd mis Mawrth 2021
- Y bwrdd iechyd i roi dangosfwrdd a systemau ar waith ar gyfer casglu ac olrhain tystiolaeth – Ebrill 2021
- Y bwrdd iechyd i gynnal ei asesiad sylfaenol – Mai 2021
- Y bwrdd i gytuno ar flaenoriaethau ar gyfer y chwe mis nesaf – Mai 2021
- Meysydd ar gyfer cymorth a chamau datblygu i'w nodi a'u cyflwyno i Llywodraeth Cymru yn dilyn yr asesiad sylfaenol – Mai 2021
- Hunanasesiadau rheolaidd i'w cynnal yn unol â chyfarfodydd y Bwrdd.

Bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio'n agos â'r bwrdd iechyd drwy gydol proses yr Ymyriad wedi'i Dargedu, gan sicrhau ei fod yn gwneud cynnydd a chan gytuno ar ymyriadau priodol lle y bo angen. Cytunir ar y rhain i ddechrau yn dilyn yr asesiad sylfaenol ym mis Mai a chânt eu hychwanegu at y fframwaith hwn.

Bydd trefniadau rheoli perfformiad arferol yn parhau drwy gyfarfodydd y Bwrdd Ansawdd a'r Bwrdd Cyflawni a'r Tîm Gweithredol ar y Cyd. Cânt eu hategu gan gyfarfodydd Ymyriad wedi'i Dargedu a gynhelir ddwywaith y mis yn ystod misoedd cyntaf y broses o roi'r Ymyriad wedi'i Dargedu ar waith. Caiff amlder trefniadau'r Ymyriad wedi'i Dargedu ei adolygu 6 mis ar ôl yr asesiad sylfaenol.

## 5.0 Datblygu'r Matricsau Aeddfedrwydd

Bydd angen i'r Bwrdd Iechyd gytuno ar ei ddulliau gweithredu ei hun ar gyfer datblygu'r matricsau a'u rhoi ar waith, ond fel canllaw, mae'r adran ganlynol yn nodi'r themâu a'r heriau y mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl iddo ymdrin â nhw.
Prif ddisgwyliad fframwaith yr Ymyriad wedi'i Dargedu yw sicrhau'r canlynol:

- Bod camau trawsnewid, gwella ac arloesi parhaus yn arwain at well trywydd o ran canlyniadau, profiad cleifion a pherfformiad ariannol flwyddyn ar ôl blwyddyn.
- Bod fframwaith atebolrwydd a pherfformiad diwygiedig yn cyflawni gwelliannau o ran perfformiad a diogelwch cleifion.
- Bod y bwrdd iechyd yn adeiladu ar gydberthnasau a strwythurau partneriaeth sy'n bodoli eisoes ac yn ymgysylltu'n llawn â'r cyhoedd, staff, undebau llafur a phartneriaid ac yn eu cynnwys wrth drawsnewid ac ail-lunio gwasanaethau.
- Bod gweledigaeth gynaliadwy ar gyfer y dyfodol yn cael ei phennu a'i chyfleu i'r cyhoedd, staff, undebau llafur a phartneriaid.
- Bod cynllun tymor canolig yn cael ei ddatblygu, gan gynnwys cynllun ariannol tair blynedd cadarn i gyflawni ei ddyletswyddau ariannol.

- Bod strategaeth gwasanaethau clinigol integredig hirdymor yn cael ei datblygu a'i rhoi ar waith.
- Bod gallu arweinwyr yn cael ei atgyfnerthu a bod gwell trefniadau llywodraethu yn cefnogi datblygiad y sefydliad, prosesau ar gyfer gwneud penderfyniadau a gwydnwch
- Bod gwelliannau yn cael eu dathlu, gan arwain at isgyfeirio, yn unol â'r matrics aeddfedrwydd.

O fewn pob matrics, mae angen ystyried pa gamau sydd angen eu cymryd er mwyn ymateb i'r heriau canlynol. Nodwch nad yw hon yn rhestr gynhwysfawr ac nad rhoi tic wrth ymyl pob cam er mwyn nodi ei fod wedi'i gwblhau sydd ei angen. Maent yn dangos y blociau adeiladu sydd angen eu hadlewyrchu yn y daith drawsnewid.

**Iechyd Meddwl (Oedolion a Phlant)**

- Rhoi dull datblygu sefydliadol ar waith er mwyn galluogi'r gwasanaeth i drawsnewid yn effeithiol ac i wella ansawdd a chanlyniadau.
- Gwell systemau ar gyfer ymgysylltu a chyfathrebu â staff, gan ddefnyddio'r adborth a geir i lywio newidiadau i'r gwasanaeth.
- Atgyfnerthu gallu arweinwyr o fewn yr isadrannau iechyd meddwl i blant ac oedolion, y Tîm Gweithredol a'r Bwrdd er mwyn gwella sefydlogrwydd a gwydnwch.
- Cyflymu'r broses o drawsnewid y gwasanaeth yn unol â strategaeth y Bwrdd, gan fyfyrio ar y gwersi a ddysgwyd o'r pandemig ac arferion cyfredol â phartneriaid.
- Tystiolaeth barhaus o bartneriaeth strategol effeithiol ar gyfer Iechyd Meddwl gan oruchwylio'r broses o wireddu'r buddiannau sy'n gysylltiedig â thrawsnewid y gwasanaeth. Datblygu cyfeiriad strategol ar gyfer y gwasanaeth a'i adnewyddu mewn partneriaeth â chleifion a staff drwy drefniadau cyd-gynhyrchu ac ymgysylltu.
- Atgyfnerthu'r metrigau ansawdd ac adborth gan ddefnyddwyr y gwasanaeth i ddangos effaith gadarnhaol newidiadau i'r gwasanaeth.
- Rhoi trefniadau llywodraethu da ar waith yn yr Isadran.
- Sicrhau bod perfformiad yn llwyddo'n gyson i gyrraedd y safonau a nodwyd yn y Ddeddf Iechyd Meddwl a Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) ar gyfer gwasanaethau oedolion a phlant.
- Gwella mynediad priodol i therapïau seicoleg o fewn amseroedd aros rhesymol.
- Y Bwrdd Iechyd i ddangos ei fod yn ymateb i'r argymhellion sy'n deillio o adolygiadau allanol a'i fod yn rhoi ffyrdd newydd o weithio ar waith mewn ymateb i'r argymhellion hyn.

**Strategaeth, cynllunio a pherfformiad**

- Datblygu strategaeth gwasanaethau clinigol integredig hirdymor, â thystiolaeth o waith ymgysylltu penodol â chlinigwyr, rhanddeiliaid a'r cyhoedd drwy gydol y broses o'i datblygu.

- Cymryd camau trawsnewid a chyflwyno modelau newydd ar gyfer gwasanaethau sylfaenol a gwasanaethau cymunedol mewn partneriaeth ag Awdurdodau Lleol a phartneriaid eraill
- Datblygu cynllun blynyddol cadarn (ar gyfer 2021/22) sy'n datblygu sicrwydd fel cam allweddol tuag at gyflwyno Cynllun Tymor Canolig Integredig cymeradwy (o 2022 ymlaen).
- Cynllun Tymor Canolig Integredig wedi'i gymeradwyo, gan adlewyrchu blaenoriaethau'r strategaeth gwasanaethau clinigol a chynnig cam sylweddol ymlaen o'r ffocws presennol ar gynllunio blynyddol. Cynnwys trefniadau i ddatblygu cynllun ariannol 3 blynedd cadarn er mwyn cyflawni ei ddyletswyddau ariannol, fel rhan o'r CTCI.
- Gwell mynediad i ofal wedi'i gynllunio gan leihau amseroedd aros yn unol â gofynion cenedlaethol
- Gwelliant parhaus mewn perfformiad, ansawdd a phrofiad cleifion ym maes gofal heb ei drefnu
- Cyflawni yn erbyn y cynllun ariannol yn ystod y flwyddyn, gan gynnwys rheoli pwysau yn ystod y flwyddyn

**Arweinyddiaeth (gan gynnwys llywodraethu, trawsnewid a diwylliant)**

- Datblygu gweledigaeth gymhellol ar gyfer y bwrdd iechyd a gaiff ei deall, ei chydnabod a'i derbyn ym mhob rhan o'r sefydliad a'i rhoi ar waith.
- Dangos arweinyddiaeth glinigol amlwg gan ymgysylltu â chleifion, partneriaid a staff.
- Bwrdd integredig ac effeithiol yn pennu cyfeiriad strategol clir i'r sefydliad.
- Cyfuno arweinyddiaeth weithredol wedi'i chefnogi gan raglen ddatblygu i'r Tîm Gweithredol.
- Cyfrifoldeb cyfun am ansawdd a diogelwch cleifion ar draws y tîm gweithredol a rolau wedi'u diffinio'n glir i arweinwyr proffesiynol
- Fframwaith atebolrwydd a pherfformiad diwygiedig, wedi'i ategu gan strwythur llywodraethu cadarn.
- Gweithgareddau archwilio a gwella clinigol amlwg a threfniadau ar gyfer goruchwylio'r gweithgareddau hynny ar draws is-adrannau/grwpiau/cyfarwyddiaethau ac ar lefel gorfforaethol.
- Dull gweithredu cadarn mewn perthynas â dysgu sefydliadol wedi'i ategu gan ddiwylliant o ofal o ansawdd uchel.

**Ymgysylltu**

- Rhoddir digon o ffocws ac adnoddau i gasglu, dadansoddi, monitro a dysgu o brofiad defnyddwyr/cleifion ym mhob rhan o'r sefydliad. Rhaid i hyn gynnwys defnyddio adborth amser real gan ddefnyddwyr/cleifion.
- Caiff gweledigaeth a strategaeth eu datblygu drwy ymgysylltu'n weithredol â staff, partneriaid a sefydliadau a defnyddwyr gwasanaethau.
- Trefniadau effeithiol ar gyfer cynnwys y cyhoedd ac ymgysylltu â'r cyhoedd, wedi'u mesur drwy arolygon o Gynghorau Iechyd Cymuned a phartneriaid
- Mae rhanddeiliaid allanol yn disgrifio cydberthnasau â'r bwrdd iechyd fel rhai cadarnhaol a cheir tystiolaeth o well trefniadau ar gyfer cydweithio a chyd-berchenogaeth drwy'r system gyfan, gan gynnwys y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol a'r Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus.
- Tystiolaeth o well ymgysylltu â staff wedi'i fesur drwy arolygon ac adborth gan undebau llafur.
- Datblygu Fframwaith Gwerthoedd ac Ymddygiad a'i roi ar waith. Dylid datblygu'r fframwaith ar y cyd â staff, ei adolygu'n rheolaidd a sicrhau ei fod yn cynnwys rhaglen ymgysylltu glir ar gyfer ei roi ar waith.

## 6.0 Isgyfeirio o'r Ymyriad wedi'i Dargedu

O dan y Trefniadau Uwchgyfeirio ac Ymyrryd ar y Cyd, mae Llywodraeth Cymru yn cyfarfod â Swyddfa Archwilio Cymru ac Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru ddwywaith y flwyddyn i drafod sefyllfa gyffredinol pob bwrdd iechyd ac ymddiriedolaeth y GIG mewn perthynas ag ansawdd, perfformiad gwasanaethau a rheoli ariannol. Caiff amrywiaeth eang o wybodaeth ei hystyried er mwyn nodi unrhyw faterion a llywio'r asesiad.

Bydd y cyfarfod tairochrog yn ystyried statws cyfeirio bwrdd iechyd yn y cyfarfodydd hyn a bydd yn adolygu'r hunanasesiadau a gynhaliwyd gan y Bwrdd, ynghyd â gwybodaeth briodol arall ac yn gwneud argymhellion i'r Gweinidog o ran y camau cyfeirio priodol ar gyfer y bwrdd iechyd.

Caiff camau isgyfeirio eu hystyried pan fydd y bwrdd iechyd yn cyrraedd lefel 3 (canlyniadau) a 4 (aeddfedrwydd). Gall fod yn briodol isgyfeirio rhai meysydd o'r Ymyriad wedi'i Dargedu ar wahanol adegau i feysydd eraill gan ddibynnu ar y cynnydd a wnaed.

## 7.0 Ymdrin â meysydd eraill lle ceir pryderon

Mae'r bwrdd iechyd yn destun Ymyriad wedi'i Dargedu ar gyfer y pedwar maes a amlinellir yn adran un. Yn ystod cyfnod yr Ymyriad wedi'i Dargedu, os caiff meysydd eraill o bryder eu codi, rhaid ymdrin â'r meysydd hyn drwy'r fframwaith uwchgyfeirio safonol fel y dangosir yn niagram un:

Diagram 1: Trefniadau Dwysáu ac Ymyrryd GIG Cymru – Trosolwg




O bryd i'w gilydd, gallai'r trefniadau rheolaidd a amlinellir uchod nodi pryder a allai fod yn ddifrifol o ran y gwasanaethau a ddarperir, ansawdd a diogelwch gofal a/neu effeithiolrwydd sefydliadol un o gyrff y GIG. Ymdrinnir â'r rhain drwy'r dull uwchgyfeirio y cytunwyd arno o fewn Llywodraeth Cymru drwy gyfarfodydd Ansawdd a Chyflawni a chyfarfodydd Gweithredol ar y Cyd.

Os daw pryder difrifol o ran y gwasanaethau a ddarperir, ansawdd a diogelwch gofal a/neu effeithiolrwydd sefydliadol i'r amlwg na ellir ei ddatrys drwy drefniadau rheolaidd, gall Llywodraeth Cymru a chyrff adolygu allanol, fel y bo'n briodol, benderfynu y dylid cynnal darn o waith byr â phwyslais penodol ar y cyd â chorff y GIG er mwyn ystyried y pryder ymhellach.

Unwaith y bydd y broses o ystyried y pryderon wedi'i chwblhau, bydd Llywodraeth Cymru a'r cyrff adolygu allanol yn rhannu gwybodaeth a chynlluniau gweithredu posibl er mwyn gallu gwneud penderfyniad gwell am y camau gweithredu mwyaf priodol iddynt eu cymryd. Caiff corff y GIG ei hysbysu'n ysgrifenedig am y canlyniad gan Lywodraeth Cymru a/neu'r cyrff adolygu allanol gan ddatgan sail y pryderon a chadarnhau unrhyw gamau gweithredu.

Os penderfynir bod angen gweithredu mewn perthynas â mater (o ran gwasanaeth a/neu effeithiolrwydd sefydliadol), yna bydd Llywodraeth Cymru a'r cyrff adolygu allanol, fel y bo'n briodol, yn ystyried difrifoldeb y mater(ion), beth a achosodd y mater(ion) yn ôl pob tebyg a gallu ac adnoddau corff y GIG i'w datrys cyn gwneud penderfyniadau o ran y math o gamau gweithredu sydd eu hangen ac i ba raddau y mae angen eu cymryd.